


Philip Lloyd yn olrhain Delweddau'r Diwygwyr (1)

Un ymarferiad poblogaidd gan rai papurau dyddiol yw creu delweddau dychmygol o bwysigion yr oes fel y tybir y byddan nhw ymhen blynnyddoedd - rhai fel y *Prince of Wales* adeg ei goroni'n frenin, neu'r Prif Weinidog presennol wedi i henaint a gofalon swydd erydu eiddgarwech ei wynepryd.

Tasg bur wahanol oedd yn wynebu'r Parchedig J.R.Kilsby Jones pan oedd yn golygu *Holl Weithiau Williams* [h.y. Williams Pantycelyn] ar gyfer ei gyhoeddi gan Gwmni William



Braslun John Williams, Llanddarog, o Williams Pantycelyn, tua 1779 (o *Y Tadau Methodistaidd*, Cyfrol I, 1895)

Mackenzie, Glasgow, ym 1867. Sut y câi hyd i ddarlun ohono i'w gynnwys yn y llyfr, ac yntau wedi marw ers 76 o flynyddoedd? Ceir yr hanes yn *Y Tadau Methodistaidd*, Cyfrol I (1895), o waith y Parchedig John Morgan Jones a William Morgan (a'i ail-adrodd ym 1949 gan y Parchedig Gomer M.Roberts yn *Y Pêr Ganiedydd* [Pantycelyn], Cyfrol I).

Yn ôl awduron *Y Tadau Methodistaidd*, gwyddai Kilsby Jones am fraslun o Williams mewn hen 'copy-book' a brynwyd gan y Parchedig R.Jones o Eglwys All Saints, Rotherhithe mewn siop lyfrau ym Mryste. John Williams, brodor o Landdarog, Sir Gaerfyrddin, oedd y perchennog cyntaf, ac roedd wedi ysgrifennu'n helaeth ynddo. Bu'n *Excise Officer*, yng Nghaerfyrddin i ddechrau, ac yna ym Mryste; dyna sut y daeth y llyfr i'r golwg yn y ddinas honno, mae'n deby.

'A resemblance of the Poet...'

Mae John Williams yn tystio yn ei 'copy-book': '*I attended Capel Llanlluan [capel anwes eglwysig ger Llanddarog], where William Williams preached monthly, from my youthful days till he died*' [bu farw ym mis Ionawr 1791, pan oedd John Williams tua ugain oed]. Ac er iddo ddisgrifio'r braslun fel: '*A resemblance of the Poet, William Williams, from recollection many years after his death*', mae awduron *Y Tadau Methodistaidd* yn tybio, o astudio'r 'copy-book' i gyd, iddo gael ei dynnu o fewn wyth mlynedd i farwolaeth Pantycelyn.

Ond, meddech chi, o edrych ar yr atgynhyrchiad ohono ar y tudalen yma, nid y ddelwedd boblogaidd o'r Pêr Ganiedydd ydyw! Beth bynnag, roedd y Parchedig R.Jones yn ddigon parod iddo gael ei ddefnyddio yn *Holl Weithiau William Williams*, ac fe'i trosglwyddwyd i ofal Cwmni Mackenzie. Dyma'r rhan nesaf o'r hanes, fel mae'n cael ei adrodd gan awduron *Y Tadau Methodistaidd*: 'Ymddengys na thybïai y cyhoeddwr a'r golygydd fod darlun John Williams yn ddigon celfyddgar a gorphenol i ateb eu pwrpas hwy, ac felly gosodasant y gwreiddiol yn llaw cerfiedydd' [sef arlunydd a fyddai yn ei engrafio ar blât metel ar gyfer ei argraffu].

Ânt ymlaen: 'Gwel y darlennydd fod copi Mackenzie yn bur anhebyg i'r gwreiddiol. Rhydd y cyntaf [sef braslun John Williams] olwg ar Williams yn hynafgwr, tra y mae yr olaf [hwnnw a ymddangosodd yn *Holl Weithiau*



Y darlun o Williams Pantycelyn a ymddangosodd yn *Holl Weithiau Williams*, 1867 (o *Y Tadau Methodistaidd*, Cyfrol I, 1895)

Williams] yn ei ddangos yn wr ieuanc...a hyny heb air o eglurhad, nac o ymesgusodiad'.

Y Sasiwn Gyntaf

A dyna sut y cawsom y ddelwedd boblogaidd o Pantycelyn - un sydd wedi cael ei hatgynhyrchu mewn llyfrau lu a'i dangos mewn rhaglenni teledu (hyd at y gyfres *Bread of Heaven* ddiweddar). Dyna'r ddelwedd a oedd ar gael, hefyd, i'r arlunydd Hugh Williams, pan fu wrthi'n paentio *Y Sasiwn Gyntaf* ym 1912. Yn yr ail-gread dychmygus hwn, gwelir rhai o gewri'r Diwygiad Methodistaidd o gwmpas y bwrdd yn ffermdy Watford Fawr, ger Caerffili, yn Ionawr 1743.



Y Sasiwn Fawr gan Hugh Williams 1912 (William Williams - y pedwerydd ar y chwith)